

HYSBYSEB PREIFATRWYDD I'R LLYFRGELL PRIFYSGOL BANGOR

Prifysgol Bangor (PB) yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel y diffinnir hynny yn Neddf Gwarchod Data 2018, ac mae wedi ymrwmo i warchod eich hawliau, yn unol â Deddf Gwarchod Data 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR).

Cynrychiolydd penodedig y brifysgol dros ddeddfwriaeth gwarchod data, a'r Swyddog Gwarchod Data, yw:

Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio

Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio

Gwasanaethau Corfforaethol

Prifysgol Bangor

Ffordd y Coleg

Bangor

Gwynedd LL57 2DG

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro'n fanwl y mathau o ddata personol y gall Llyfrgell Prifysgol Bangor eu casglu amdanoch pan fyddwch yn ymwneud â ni a pham y mae angen i ni eu prosesu.

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch?	Pam mae angen prosesu'r wybodaeth bersonol hon?	Beth yw'r sail gyfreithiol i ACAPB ddefnyddio'r wybodaeth hon?
Eich enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost	I roi mynediad i chi at ddogfennau Lyfrgell wreiddiol yn ein hystafelloedd darllen ac i ddiogelu dilysrwydd ein casgliad	Mae hyn yn angenrheidiol i weithredu ein hawdurdod swyddogol drwy reoleiddio'r amodau y gall aelodau'r cyhoedd archwilio cofnodion cyhoeddus ac eraill
Delweddau ar ffurf fideo ac/neu ffotograffig	I hyrwyddo digwyddiadau'r Llyfrgell, neu i hyrwyddo ein gwasanaethau	Lle rhoddwyd caniatâd
Ffilm CCTV o'ch presenoldeb a'ch ymddygiad yn yr ystafell chwilio Llyfrgell	I ddibenion atal trosedd (i reoli diogelwch dogfennau) a diogelwch y cyhoedd	Mae hyn yn angenrheidiol i weithredu ein hawdurdod swyddogol drwy reoleiddio'r amodau y gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio cyfleusterau'r Llyfrgell

GWYBODAETH BELLACH YN YMWNEUD Â'CH DATA

Eich hawliau:

Mae hawl gennych i fynd at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ar ac i symud eich gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi rhoi caniatâd i ACAPB brosesu unrhyw ddata o'ch eiddo, yna mae gennych hawl hefyd i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl. Ewch i we-dudalennau Gwarchod Data'r Brifysgol i gael gwybodaeth bellach am eich hawliau:

<https://www.bangor.ac.uk/planning/dataprotection/index.php.cy>

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol.

Diogelwch:

Mae deddfwriaeth gwarchod data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae hynny'n golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir pob cam priodol i atal mynediad heb awdurdod a datgelu gwybodaeth. Dim ond aelodau staff fydd angen mynd at rannau perthnasol eich gwybodaeth, neu eich holl wybodaeth, fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd angen cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill i gael mynediad at wybodaeth amdanoch mewn ffurf electronig, a chaiff ffeiliau papur eu cadw mewn manau diogel gyda mynediad atynt wedi'i rheoli. Mae gwybodaeth bellach am y prosesau hyn i'w chael ym Mholisi Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol.

Dal gafael

Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn hwy nag sydd ei angen i gyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer, gan gymryd i ystyriaeth y gofynion o'r meini prawf a ganlyn:

- y math o wybodaeth sydd gennym amdanoch
- unrhyw gyfreithiau neu reoliadau y mae angen i ni gadw atynt
- p'un a ydym mewn anghydfod cyfreithiol, neu anghydfod o fath arall, gyda'n gilydd neu unrhyw drydydd parti

Cwynion:

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y proseswyd eich gwybodaeth bersonol gellwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal yn anfodlon mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Y Comisiynydd Gwybodaeth

2il Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678 400